


papur



priordy



Molwch yr Arglwydd â'r Delyn,
Canwch salmau iddo â'r offeryn dectant;
Canwch iddo gân newydd,
Trawch y tannau'n dda, rhowch floedd.

Salm 33

*Dewiswyd gan Mari Jenkins
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

Rhifyn 351
PAPUR IONAWR 2022

Gair gan ein Gweinidog

Cymod

BLWYDDYN NEWYDD DDA i chi i gyd, neu efallai bod y cyfarchiad Blwyddyn Newydd Well yn fwy addas.


Rydym yn croesi trothwy'r flwyddyn newydd yn llawn pryder a gofid.

Ond cofiwn ei bod yn gyfnod y Nadolig o hyd tan 6 Ionawr (Yr Ystwyll) ac mae ysbryd y Nadolig yn rhyfeddol o bwerus a bendithiol.

Cafais gyfle i gyflwyno cyfarchiad Nadolig ar ran Undeb yr Annibynwyr ganol Rhagfyr a thynnu sylw drwyddo at yr angen gwirioneddol i Ysbryd y Nadolig wella'r rhaniadau a gafodd eu hachosi gan bandemig Covid-19.

Yn ogystal â chael effaith ddinistriol ar iechyd cyhoeddus, mae digwyddiadau ac agweddau sy'n ymwneud â'r pandemig wedi achosi cryn chwerwder cyhoeddus.

Ar y naill law, mae dicter tuag at rai gwleidyddion yr honnir eu bod wedi diystyru rheoliadau gwrth-Covid ac ar y llaw arall chwerwder gan ac yn erbyn y rhai sy'n gwrthwynebu'r rheoliadau hynny.



Ganwyd Crist i gymodi rhwng Duw a dynoliaeth, ac mae gwir angen yr ysbryd hwnnw o gymod, goddefgarwch a chariad yn ein cymdeithas y Nadolig hwn. Roedd bywyd a marwolaeth Iesu yn un o hunanaberth llwyr, ac mae pobl ddi-ri eisoes wedi aberthu cymaint yn ystod y pandemig hwn.

Wrth i'r argyfwng barhau mae galw arnom i aberthu ein hagweddau a'n gweithredoedd ein hunain er lles pawb.

Os oes gennym gonsyrn a chariad gwirioneddol tuag at bobl eraill, yna mae gennym gyfrifoldeb personol i gymryd pob cam posibl i helpu i atal lledaeniad y feirws ofnadwy yma, yn y gobaith y byddwn yn rhydd o'r hunllef hon erbyn y Nadolig nesaf.



DYMUNAF FLWYDDYN NEWYDD ddiogel a iach i bob un ohonoch ac i'ch anwyliaid. Pob bendith a daioni i chi i gyd gan obeithio y bydd y flwyddyn newydd hon, yn wir, yn un well i ni i gyd.

2022

Gweddïwn

Diolchwn i ti, ein Tad, am roi i ni flwyddyn newydd.



Ti yw ffynhonnell ein bywyd,
ac ynot ti yr ydym yn byw,
yn symud ac yn bod.



Diolchwn am flwyddyn newydd nad yw neb, hyd yn hyn, wedi camu drwyddi.

Helpa ni i ddefnyddio oriau'r flwyddyn hon yn adeiladol.
Helpa ni i fod yn synhwyol ac yn amyneddgar wrth ddelio â straen newydd Covid.

Gwna ni'n ddoeth ein geiriau ac yn swynhwyol ein gweithredoedd..

Arwain ni a bugeilia'n calonnau a'n meddyliau.

Yn enw Iesu Grist

Amen




DARLLENIADAU



Mis Ionawr	Darlleniad
Wythnos 1	Effesiaid 1: 3-14
Wythnos 2	Luc 3: 15-17; 21-22
Wythnos 3	Ioan 2: 1-11
Wythnos 4	Luc 4: 14-21
Wythnos 5	Luc 4: 21-30



Wedi'r Nadolig



Pan fydd cân yr angylion wedi tawelu,
pan fydd y seren yn yr awyr wedi diflannu,
pan fydd y brenhinoedd a'r tywysogion wedi cyrraedd adref,
pan fydd y bugeiliaid yn ôl gyda'u preiddiau,
Pan fydd y baban Iesu yn cysgu drwy'r nos,
Pan fydd Mair a Joseff wedi dod o hyd i ddiogelwch,

Pan fydd y tinsel a'r goeden Nadolig blastig nôl yn y cwtsh dan
star,

Pan fydd sgerbwd y goeden Nadolig go iawn
wedi cyrraedd y ganolfan ailgylchu,
Pan fydd olion y craceri i gyd wedi eu darganfod,
Pan fydd gweddillion y twrci wedi'u claddu,
Pan fydd y ffilmiau Nadolig wedi diflannu o'n sgriniau,
A phan fydd y byd yn dychwelyd i'w rwtin arferol,
yna mae gwaith y Nadolig yn dechrau:

Dod o hyd i'r sawl sydd wedi colli'r ffordd,
Gweddïo gyda'r rheini mae eu hysbryd yn isel
a fflam eu gobaith wedi pylu,
Bwydo'r rhai sy'n llwgu,
Rhyddhau'r gorthrymedig,
Ailadeiladu'r cenhedloedd,
dod â heddwch i'r holl bobloedd,
creu harmoni a chynghanedd yn y galon.

Pelydru Goleuni Crist,
bob dydd,
ym mhob ffordd,
ym mhopeth a wnawn
ac ym mhopeth a ddywedwn.

Yna, mae gwaith y Nadolig yn dechrau.

Beti-Wyn James

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

RHIAN EVANS AC IRIS OWEN

JOHN A CARYS GREEN

MARGARET JONES

TŶ RHYS

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

CALENDR ADFENT RHITHIOL YR OFALAETH



**Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at y
Calendr ac i Angharad a Ieuan Wyn am eu
gwaith golygu. Agorwyd Drws y Calendr o
ddydd i ddydd gan lawer iawn a'u hymateb yn
dangos iddynt gael mwynhad a bendith mawr**

CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY

**Nos Fercher 9 Mawrth 2022 am 7
yn y capel**


**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r
ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd
Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

CWRDD DIACONIAID A BAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR YR OFALAETH

**Nos Fercher 23 Mawrth 2022 am 7
yng Nghana**

2022 - BLWYDDYN FAWR!

YN ddiweddarach y flwyddyn hon byddwn yn dathlu cynnal Undeb cyntaf yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghapel Heol Awst Caerfyrddin 150 mlynedd yn ôl ym 1872. Dewiswyd y



Parchedig **William Rees**

(**Gwilym Hiraethog**) yn

gadeirydd cyntaf iddo a

'Satan' oedd testun ei anerchiad o'r Gadair – un o'r anerchiadau mwyaf a draddodwyd o Gadair yr Undeb erioed, yn ôl R Tudur Jones.



Mae'n briodol felly fod cyfarfodydd yr Undeb eleni'n dychwelyd i

Gaerfyrddin dan nawdd Cyfundeb Gorllewin Sir Gâr. A llywydd presennol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, wrth gwrs, **yw'r Parchedig Beti-Wyn James**, Gweinidog y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin



Ond mae'r flwyddyn hon hefyd yn nodedig am ein bod yn cofio pedwar canmlwyddiant geni person arbennig iawn sydd â chysylltiadau cryf â Chaerfyrddin a'r Ffydd Gristnogol, sef. **Stephen Hughes, Apostol Anghydfurfiaeth** - un a droes gwerin Cymru yn 'geidwaid yr iaith'.

Y dyddiadau 1622-1688 yw'r rhai a briodolir i fywyd Stephen Hughes yn y ffynonellau hanes.

Fe'i ganed yng Nghaerfyrddin yn fab i John Hughes, sidanydd yn y dref. Bu'i dad a'i frawd yn feiri yn ein tref. Prin yw'r wybodaeth am ei flynyddoedd cynnar ond mae'n debygol iddo gael ei addysg yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin. Daeth yn weinidog Piwritanaidd ym Meidrim ym 1654 ar ôl bod ym Merthyr (Sir Gâr) ac roedd yn ŵr o ddylanwad pan oedd Cromwell mewn grym.

Dechreuodd gyhoeddi llyfrau Cymraeg tua 1658. Y peth cyntaf a wnaeth oedd cyhoeddi rhai o benillion Rhys Prichard, ficer

Llanymddyfri Ond wedi marwolaeth Cromwell, cafodd Siarl 11 ei adfer i'r orsedd a bu rhaid i Hughes adael ei fywoliaeth ym Meidrim. Bu'n pregethu a chadw ysgolion yn Sir Gâr. Priododd â Catherine, merch o deulu eitha cefnog yn Abertawe ac ymgartrefu yno.

Roedd yn perthyn i ail do'r Piwritaniaid wedi'r Adferiad yn 1660 a sylweddolai mai angen Cymru'r pryd hwnnw oedd addysgu'r werin i ddarllen Cymraeg a darparu llyfrau yn rhad a helaeth ar eu cyfer.

Tua 1670 aildechreuodd gyhoeddi llyfrau. Bu'n gyfrifol am gyhoeddi pedwar casgliad gwahanol o gerddi Rhys Prichard cyn 1681 ac yna ddod â'r cwbl ynghyd ym 1681. Dyna pryd y galwyd y casgliad yn *Ganwyll y Cymry* am y tro cyntaf. Mae Geraint H Jenkins (Hanes Cymru yn y cyfnod Modern Cynnar 1530-1760) yn dweud bod Hughes wedi sylwi fel roedd mesurau syml a chofiadwy Rhys Prichard yn glynu yng nghof gwerinwyr. Dywed yr hanesydd Glanmor Williams fod Rhys Prichard wedi goleuo'r gannwyll a bod Stephen Hughes wedi'i gosod ar y ganhwylbren!



Ymhlith cyhoeddiadau eraill Hughes roedd Taith y Pererin (1688), argraffiad newydd a rhad o'r Testament Newydd ynghyd â'r Salmau ac wyth mil o Feiblau yn 1678 a deng mil yn rhagor ym 1690.

Roedd ganddo gyfaill o Biwritan, sef Henry Maurice (1634-82), brodor o Lŷn a fyddai'n cynorthwyo Hughes drwy egluro i Gymry'r gogledd ystyr geiriau o dafodiaith y de a ddigwyddai yn y llyfrau a gyhoeddid.

Daeth hefyd i gyswllt â **Thomas Gouge (1605-81)**, Sais ac offeiriad yn Llundain a gollodd ei fywoliaeth ym 1662 oherwydd ei anghytundeb â'r Ddeddf Unffurfiaeth. Sefydlodd y Welsh Trust neu'r Ymddriedolaeth Gymreig i efengylu ymysg y Cymry drwy sefydlu ysgolion a chyhoeddi llyfrau. Bwriad Gouge oedd trwytho plant Cymru yn y Saesneg er mwyn eu galluogi i ddarllen llyfrau defosiynol Saesneg. Afraid fyddai gorfod aros i'r Cymry fedru Saesneg cyn y gellid achub eu heneidiau! Ond llwyddodd Hughes berswadio Gouge i neilltuo peth o gyllid yr Ymddriedolaeth at

gyhoeddi llyfrau defosiynol yn Gymraeg, gan roi hwb mawr i'r wasg yng Nghymru.

Yma yng Nghaerfyrddin, gwaith a dylanwad Stephen Hughes fu'r sbardun i ddechreuadau achos Heol Awst a hynny ymhell cyn codi'r adeilad ei hunan.


Mae ffenestr liw er cof iddo, sef Goleuni y Byd, yn y capel. Fe'i gosodwyd yno ym 1922 adeg dathlu tri chanmlwyddiant ei eni

Gweithiodd Stephen Hughes yn ddiflino yn Sir Gâr ymhlith yr Anghydfurfwyr cynnar gan lwyr haeddu'r teitl Apostol Sir Gâr. Ond treiddiodd ei ddylanwad lawer ymhellach na hynny.

GWNAETH gyfraniad enfawr a phellgyrhaeddol dros deyrnas Dduw drwy bregethu, dechrau eglwysi, addysgu a chyhoeddi a hyfforddi arweinwyr newydd i barhau'r gwaith. Arloesodd y ffordd i eraill ei ddilyn, fel Y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol, Griffith Jones a'i ysgolion cylchynnol a Thomas Charles a'r Ysgol Sul. Trwy'r cyfan a wnaeth cyfrannodd yn helaeth i'r adfywiad llenyddol a chrefyddol yn y ddeunawfed ganrif. Bu farw yn Abertawe ym 1688.



COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS



Annwyl Aelodau Y Priordy, Cana a Bancyfelin

Apêl Teganau

Diolch yn fawr iawn am eich cyfraniadau tuag at yr Apêl Teganau.

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn a diolch am eich ymrwymiad tuag at y prosiect o flwyddyn i flwyddyn.

Trwy weithio gyda'n gilydd rydym yn sicrhau cefnogaeth i blant a phobl ifanc Sir Gâr sy'n wynebu cytnod anodd dros y Nadolig.

Yn gywir

Nia Thomas

Rheolwr Systemau Addysg



GWASANAETH NADOLIG PIP



Alwen Owen....

Gwasanaeth Dan Olau Cannwyll Yng ngofal PIP Pobl Ifanc Y Priordy

Nos Sul 5 Rhagfyr 2021



Braf iawn oedd cynnal gwasanaeth Nadolig PIP yn y capel eleni ar ôl seibiant o ddwy flynedd ac am y tro cyntaf erioed roeddent ar wahân i'r plant iau.



Croesawyd pawb i'r oedfa gan Syfi a nododd ein bod yn cynnau'r ail gannwyll ar y dorch adfent sef cannwyll heddwch. Ein dymuniad ni i gyd y Nadolig hwn yw am weld heddwch yn ein byd.

Yn dilyn canu'r garol '*Wele cawsom y Meseia*', soniodd Gareth ein bod newydd ganu'r geiriau '*Darfu Moses a'r Proffwydi, ddweud amdano cyn ei ddod*', ac felly addas iawn oedd gwrando ar ei ddarlleniad yn sôn am y Proffwyd Eseia yn rhagweld genedigaeth Iesu.

Wrth i ni ddarllen Efengyl Mathew, dywedodd Tomos Huw ac Osian fod yna demtasiwn gennym i sgipio dros yr 16 adnod cyntaf sef coeden deuluol Iesu er mwyn cyrraedd hanes geni Iesu Grist ym Methlehem. Ond roedd gan yr Iddewon yn amser Iesu ddiddordeb mawr mewn llinach a phwy oedd yn perthyn i bwy. Mae Mathew am i bawb wybod fod Iesu yn dod o deulu Dafydd, y brenin enwog ar Israel tua 1000 C.C. Roedd Dafydd yn frenin pwysig a lwyddodd i uno'r Israeliaid a gobaith yr Iddewon y tro yma oedd y byddai Duw yn anfon rhywun arall tebyg i Dafydd i'w harwain. Ac fe ddaeth un i'w harwain, sef Iesu.


Marged ac Anna fu wedyn yn adrodd stori geni'r Iesu ac wedi canu'r garol '*I orwedd mewn preseb*', cafwyd darlleniad pellach gan Ethan, Efa a Gwenan yn sôn am y bugeiliaid a'r angylion a'u taith i weld y baban Iesu – '*Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem i*



weld beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd.' Yn wir roedd Jac, sef un o'r bugeiliaid yn syfrdan wrth iddo ddarganfod nid tywysog ar ei orsedd



Nesaf, cafwyd darlleniad gan Carina a Gwenan am daith y doethion o balas Herod yn Jerwsalem i'r stabl tlawd ym Methlehem ac yn dilyn canu'r garol '*Ganol Gaeaf Noethlwm*', soniodd Elis na allwn ni ddymuno dim byd mwy i'n byd y Nadolig hwn na heddwch. Mae'r byd yn dal i fod yn gartref i frwydrau a rhyfeloedd, tloidi, anghyfiawnder, newyn, ffoaduriaid ar grwydr ac i ofid newid hinsawdd. Yn addas iawn fel y dywed Siwan yn y gerdd hyfryd am ddyfodiad Iesu – '*Ymdawela, o fyd, anghofio yn awr dy rialtwch a'th stŵr, a gwranddo'r hyfryd lais; Nid llais y bloeddiwr di-ras a'r honni di-daro ond llais y rhai addfwyn, tirion, sy'n cyhoeddi'r newyddion da.*'



Tro Elain, Betsan, Erin a Gwion oedd hi i ddiweddu'r oedfa gyda gweddi bwrrpasol yn cyfuno stori geni'r Iesu gyda sialensiau ein bywydau bob dydd – '*Boed iddynt gael gwybod am dy heddwch, dy obaith a'th lawenydd.*'

Cyn ffarwelio, canwyd y garol '*O Deuwch Ffyddloniaid*' a dywedwyd y fendith gan Gwenllian Jones. Yn wir, cafwyd oedfa arbennig eleni yng ngofal Pobl Ifanc y Priordy gyda naws hyfryd wedi'i chynnal o dan olau kannwyll heddwch.'Diolch enfawr i chi i gyd.



Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com?



Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

Rhian Evans....

YDYCH CHI'N HOFFI CWIS?

Yn ystod yr ugain mis diwethaf bu'n amhosibl i bob elusen godi arian yn y dulliau arferol. Bu hynny'n wir yn achos Llyfrau Llafar Cymru, ond y mae un o'm ffrindiau, sef John Green, wedi taro ar syniad gwyh ar un ffordd i gyfrannu i goffrau'r elusen. Fe wnaeth John yr un peth llynedd a llwyddodd i godi dros £1,000 i'r Hosbis lleol.



Y tro hwn, mae John wedi llunio cant o gwestiynau Saesneg gyda phob ateb yn cynnwys naill ai'r gair chwech neu saith. Mae gan yr ymgeiswyr tan y Pasg i bori dros y cwestiynau ac ar ôl eu hateb gellir anfon y tudalen yn ôl at John. Fe fydd yr un sydd wedi ateb y cyfan neu'r agosaf at hynny yn derbyn gwobr ariannol fechan. Mae pob tudalen yn costio £1.00, ond y gobaith yw y bydd pobl yn garedig ac yn cyfrannu ychydig yn fwy na hynny at yr elusen. Fe fydd chwilio am yr atebion yn weithgarwch difyr dros fisoedd y gaeaf.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU

Pe baech yn dymuno cael copi o'r cwestiynau cysylltwch â **Rhian Evans** ar fôn **01267 235195** neu ebost **rhianevans6949@gmail.com**



GYDA'N GILYDD
Cylchlythyr Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin
Hydref / Gaeaf 2021
Ar gael yn awr

GWASANAETH NADOLIG YR YSGOL SUL



Elen Marks....

GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY Dydd Sul 12 Rhagfyr 2021

ER y rheolau llym eleni eto, yn cynnwys masgiau a phellter cymdeithasol, braf iawn oedd cael bod nôl yn y Capel ar gyfer oedfa Nadolig yr Ysgol Sul!

Teitl y gwasanaeth eleni oedd 'Addurno'r Goeden' gyda phob aelod o'r Ysgol Sul yn cael cymryd rhan mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Croesawyd pawb i'r gwasanaeth gan Y Gweinidog, Beti-Wyn, a gwnaed y cyhoeddiadau ganddi hefyd. Nodwyd fod cyfraniadau'r casgliad i fynd at waith yr Ysgol Sul ac yn ystod y casgliad chwaraeodd Trystan '*I Orwedd mewn Preseb'* yn wych ar y trwmped, y tro cyntaf iddo wneud hynny o flaen cynulleidfara'r Priordy!



Wedi hyn dyma Trystan a lestin yn mynd i fyny i'r pulpud er mwyn croesawu pawb i'r gwasanaeth ac egluro pwrpas torch yr adfent. Cynnwyd y drydedd gannwyll gan Beti-Wyn, ac eglurodd lestin mai hon yw kannwyll Llawenydd. Trwy weddi, diolchodd lestin am lawenydd y Nadolig ac am fod Iesu wedi dod i'n byd fel baban bach. Soniodd Trystan am y goeden Nadolig yn y capel, nad oedd addurniadau ami eto, a bod angen help aelodau'r Ysgol Sul i'w haddurno! Ond cyn dechrau ar y gwaith hynny, dyma ganu carol 475, '*Pan anwyd Crist'* i gyfeiliant y Band.

Tro'r ddwy chwaer, Miriam ac Olwen oedd hi nesaf a'r ddwy yn sôn am y traddodiad o osod addurniadau Nadolig yn ein cartrefi ac am hudolrwydd eira adeg y Nadolig. Fel y dywedodd Miriam, efallai mai dim ond un dydd o eira y flwyddyn a gawn ni ond mae cyffro mawr pan ddaw gyda rhyw ffresni a phurdeb yn dod yn ei sgil. Aeth Miriam ymlaen i'n hatgoffa fod y baban Iesu yn bur ac yn unigryw - fel pob pluen eira.


Tra oedd cerddoriaeth ysgafn yn cael ei chwarae yn y cefndir, gofynnodd Olwen i bob un â rhif 1 ddod ymlaen i roi ei addurn ar y goeden er mwyn dechrau ar y gwaith haddurno

Wedi iddynt roi eu haddurn ar y goeden, aeth Beca a Mali i fyny i'r pulpud er mwyn rhoi hanes addurno coed bytholwyrdd i'r gynulleidfa. Soniodd Beca am hanes y goeden gyntaf yn cael ei haddurno yn yr Almaen gydag adroddiad cyntaf am goeden Nadolig yng Nghymru ym 1848 mewn siop groser yng Nghaerdydd. Aeth Mali ymlaen



i sôn am osod goleuadau ar goed Nadolig a'u bod yn ein hatgoffa bod y baban Iesu wedi dod â golau newydd i fyd o dywyllwch.

Canwyd y garol '*I orwedd mewn preseb*' i gyfeiliant y band ac yna tro Caleb a Gwilym oedd hi nesaf i fynd i'r pulpud. Soniodd Gwilym am y trafferth o ddatglymu'r goleuadau bob blwyddyn boed y goleuadau wedi mynd nôl yn daclus y tro cynt ai peidio! Eglurodd Caleb am y traddodiad o osod canhwyllau ar y goeden flynyddoedd maith yn ôl a'r hanes am ddyn o'r enw Martin Luther aeth ar goll mewn coedwig un tro a cholli'i ffordd allan ohoni. Gwelodd oleuadau yn y pellter a'u defnyddio er mwyn dod allan. Roedd y goleuadau yn arwydd o obaith a



dyna pam yr ydym yn rhoi goleuadau ar ein coed bob blwyddyn.

Tro'r criw oedd â rhif 2 oedd hi i roi'u haddurniadau ar y goeden nawr ac yna cafodd y plant ieuengaf gyfle i ganu medli o garolau ysgafn o dan arweiniad Beti Wyn.

Mac a Noa ddaeth i'r pulpud nesaf i sôn am fwy o draddodiadau addurniadau Nadolig. Fel y nododd Mac, mae'r seren ar dop y goeden yn bwysig iawn gan ei bod yn ein hatgoffa mai hi arweiniodd y brenhinoedd at breseb y baban Iesu. Soniodd Noa wedyn am y Brenin Herod a'r ffaith ei fod wedi cael braw mawr pan sylweddolodd fod brenin newydd wedi'i eni. Aeth Noa ymlaen i ddweud mai Iesu yw'r gwir frenin ac mae'r seren ar y goeden yn ein hatgoffa o hyn hefyd. Cafodd pawb a dderbyniodd rhif 3 y cyfle i ddod ymlaen i rhoi eu haddurniadau ar y goeden.

I ddod â therfyn i'r gwasanaeth dyma Luned ac Elliw yn dod i fyny i'r pulpud i arwain y gynulleidfa mewn gweddi, gan gofio am y rhai hynny sy'n unig neu'n drist adeg y Nadolig. Diolchodd Luned am y goeden Nadolig, sy'n ein hatgoffa am Iesu ac am y cyfle rydym yn ei gael i ddathlu ei eni. Gofynnodd Elliw r i ni gael ein cadw'n ddiogel ac yn iach dros yr ŵyl ac yna'n harwain ni i mewn i Weddi'r Arglwydd.

Cafwyd cyfle i wyllo Côr Rhithiol yr Ysgol Sul ar y sgrîn fawr cyn i Beti-Wyn ddiolch i bawb a gymerodd ran - o'r plant a'r band i'r gynulleidfa yn y capel a'r gynulleidfa rithiol. Gorffennwyd y gwasanaeth drwy ganu Carol 476, '*Dos dywed ar y mynydd*' a thrwy'r fendith gan Beti-Wyn.

WEDI'R gwasanaeth cafwyd gwledd o goctels y Priordy, mins peis a bisgedi! Diolch i bawb a helpodd gyda hyn, boed yn paratoi'r wledd neu'n ei gweini!



I



Pa mor dda ydych chi'n'nabod eich emynau? Mae'n Fis Ionawr ac mae pob gair sy'n eisiau yn yr her isod yn dechrau gydag I. Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!

1	Gogoniant tragwyddol --- enw fy Nuw	
2	Dyma ----- hyfrydi	
3	Llifa ataf --- tragwyddol	
4	Fe rodiai ---- un prynhawn	
5	Agored ddrws --- caethion	
6	Boed fy nghalon ----- demel	
7	Dysg --- garu Cymru	
8	Yn gymaint – gofio un o'r rhain	
9	Donna nobis pacem -- terra	
10	Meddwl am fyd heb flodyn --- harddu	

Atebion ar Dudalen 30

ROTA DARLLENWYR BORE SUL - 2022

Ionawr	2	Teulu Jones	Gorffennaf	3	Heledd M Jones
	9	Y Plant		10	Sul y Cyfundeb
	16	Catrin H Jones		17	P H Griffiths
	23	Elinor W Reynolds		24	June Thomas
	30	Huw Jones		31	Gareth Gravell
Chwefror	6	Elen Marks	Awst	7	
	13	PIP		14	
	20	Huw Michael		21	
<i>Gŵyl Dewi</i>	27	Y Plant		28	Y Parch W Vittle
Mawrth	6	Carys Morgans	Medi	4	Y Plant
	13	Elis Jones		11	Meleri LI O'Leary
	20	Gill Owens		18	Heledd Tomos
<i>Sul y Mamau</i>	27	Y Mamau		25	Gŵyl Mawl Medi
Ebrill	3	Philip Jones	Hydref	2	Y Plant
<i>Sul y Blodau</i>	10	Yr Aelodau		9	Angharad Wyn
<i>Y Pasg</i>	17	Jayne Woods		16	Lleucu Edwards
	24	Miriam Wyrwoll		23	Catrin M Jones
				30	Adrian Evans
Mai	1	Ffion Parsons	Tachwedd	6	Y Plant
	8	Y Plant		13	Wyn Tegryn Evans
	15	Tim Hayes		20	Alwen Owen
<i>t</i>	22	PIP		27	Sulwyn Thomas
	29	Luned V Thomas			
Mehefin	5	Delyth G Davies	Rhagfyr	4	Meinir Jones
	12	Y Plant		11	Oedfa Nadolig (PM)
<i>Sul y Tadau</i>	19	Pererindod	<i>Cana</i>	18	Alun Charles
	26	Alison Parsons	<i>Bore Nadolig</i>	25	Y Bobl Ifainc

A wnewch chi frw golwg dros y rhestr hon, os gwelwch yn dda, a chyfnewid dyddiad gyda pherson arall os nad yw'r Sul yn gyfleus i chi a rhoi gwybod i'r Gweinidog. Llauer o ddiolch

PEN-BLWYDD HAPUS!



**Mair Lewis yn derbyn anrheg gan ein Gweinidog ar ran y
Priordy ar ddydd ei phen-blwydd arbennig y 90 oed**

Ifanc@Priordy

Blwyddyn Newydd Dda bawb!

Fedrwch chi ddod o hyd i'r atebion ? Un llythren i bob sgwâr. Atebion ar ddiwedd y dudalen nesaf – dim pipo!

1. Os nad yw rhywbeth yn hen mae e'n ?
2. Yr enw ar noson Rhagfyr 31?
3. 12 mis a 52 o wythnosau
4. Y mis cyntaf
5. Penglog ceffyl wedi ei addurno
6. Canu o ddrws i ddrws ar fore'r flwyddyn newydd

1			W			
2				A		
3		L				
4			N			
5						Y
6				E		

Be' ddigwyddodd wedi i Iesu gael ei eni?

Cafodd Joseff freuddwyd arall. Gwelodd angel Duw yn dweud wrtho. "Rhaid i chi ddianc ar unwaith! Dos â'r plentyn a'i fam i'r Aifft, ac aros yno nes i mi ddweud ei bod yn saff i chi ddod yn ôl. Mae Herod yn ceisio dod o hyd i'r plentyn er

mwyn ei ladd.” Felly cododd Joseff ganol nos a gadael am yr Aifft gyda'r plentyn a'i fam. ¹⁵ Buon nhw yn yr Aifft nes oedd Herod wedi marw.

Nadolig!

Diolch i bawb ohonoch am eich cefnogaeth a'ch gwaith yn yr oedfa Nadolig. Popeth yn wahanol iawn eleni, ond yn well na llynedd! Mae'r goeden Nadolig yn y capel yn edrych yn wych ... diolch i chi am helpu i'w haddurno yn ystod ein gwasanaeth Nadolig.



PIP

Diolch i'r PIPiaid am arwain oedfa dan olau kannwyll mor fendigedig. Profiad newydd i ni gyd yn Y Priordy. Awrygylch arbennig. Gwych iawn. Da iawn bawb!

Tymor newydd

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn cyn bo hir. Gwylwch y gofod!

Apêl

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch a gafodd gyfle i gefnogi apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gâr. Cafwyd ymateb gwych iawn a char Beti-Wyn yn llawn hyd yr ymylon o arhegion bendigedig ar gyfer plant y Sir. Da iawn bawb!



Calendr Ionawr

Ionawr 2	Oedfa dechrau'r flwyddyn	Oedfa dechrau'r flwyddyn
Ionawr 19	Oedfa blant a phobl ifanc	Oedfa blant a phobl ifanc
Ionawr 16	Ysgol Sul	PIP i aros yn yr oedfa
Ionawr 23	Ysgol Sul	PIP i aros yn yr oedfa
Ionawr 30	Ysgol Sul	PIP

Cofiwch am gwrrd plant cynta'r flwyddyn fore Sul 9 Ionawr!

Rydym yn cadw llygad ar y sefyllfa Covid ac yn addasu yn ôl yr angen.

Hwyl am y tro,
Beti-Wyn



newydd
Calan
blwyddyn
Ionawr
Mari Lwyd
Calennig

DISGYBLION BLWYDDYN 10 YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN YN YMWELD Â'R PRIORDY YN RHAN O'U CWRS TGAU



YR OFALAETH YN CYDADDOLI DROS YR WYL

Wyneb yn Wyneb

Bore Sul 19 Rhagfyr 2021

Mae'n byd yn llawn anhrefn a dryswch – yn draed moch rhwng popeth mewn gwirionedd ond neges obeithiol ein Gweinidog yn ei myfyrdod oedd bod Duw drwy lesu yng nghanol yr annibendod yn cynnig cyfeiriad a threfn i ni'r Nadolig hwn. Mae tangnefedd a heddwch a gwir gariad i'w canfod wrth droi at lesu.



Yng nghlydwch Festri Cana a oedd wedi'i hawyru i'n diogelu wrth i don newydd o'r feirws ein bygwth cawsom gydganu carolau a'n harwain mewn darlleniad gan Joanne Richards (Bancyfelin) a gweddi gan Alun Charles (Y Priordy). Roedd Heather Williams wrth y piano. Cyhoeddwyd gan Marlene Jones a bu Gwion James yn gofalu am y casgliad. Dymunwyd yn dda hefyd i Gwion a fydd cyn bo hir yn cael chwarae gyda thîm rygbi Sanclêr yn ystod hanner amser un o gemau mawr y Sgarlets yn eu stadiwm yn Llanelli!

Parhaodd pawb i eistedd yn drefnus yn eu seddau ar ddiwedd yr oedfa i dderbyn paned a briwgacs wedi'u paratoi a'u gweini gan aelodau Cana cyn i ni ffarwelio gyda neges obeithiol ein Gweinidog yn dal i atseinio yn ein meddwl wrth i ni wynebu prysurdeb a rhialtwch Nadolig y byd unwaith eto.,



Nos Sul 19 Rhagfyr 2021

Fe ddywedodd yr Esgob Andy John, darpar Archesgob Cymru yn ddiweddar nad clwb dethol mo'r eglwys. Ei swyddogaeth yw ymestyn allan i'r gymuned leol a thu hwnt A dyna a wna Capel Bancyfelin bob Nadolig drwy ymgynnull ger y Wenallt a cherdded drwy'r pentref gan oedi hwnt ac yma i ganu

carol neu ddwy cyn gwahodd pawb i gydaddoli a diweddu'r 'Daith i Fethlehem' dan olau kannwyll yn y capel ei hunan. Braff oedd curo wrth ddrws rhai cydnabod yn ystod y daith i'w cyfarch gyda charol. Yn cymryd rhan ar y daith roedd Hanna Harvey, Emyr Waters, Rhys Thomas, Siôn Jones a Gwion Jones. Yn y capel cymerwyd rhan gan dri o deuluoedd yr Ysgol Sul, sef Teulu'r Plas, Teulu Meidrim a Theulu Plas Cowin ynghyd â'n Gweinidog a chlywsom am y rhodd orau un a ddaw i ni adeg y Nadolig, sef Iesu un sydd mor unigryw â phulen eira ac yn gallu dod â gobaith a goleuni a llawenydd mawr i fywyd pob un ohonom, Y casglyddion oedd Amelia, Cai ac Alfie. Roedd Angharad Richards wrth yr organ. Cyn diwedd yr oedfa, cafwyd cyfle i longyfarch ac anrhegu tri o aelodau'r eglwys, Carwen Howells, Lyn Jones a Vera Thomas ar gwblhau 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenoriaid. Ar ddiwedd yr oedfa cawsom groesawu Siôn Corn atom a gweld y plant yn cael eu hanrhegu. Diweddwyd gyda lluniaeth ysgafn yn cynnwys gwin twym (di-alcohol) a briwgacs – diolch i garedigrwydd aelodau Bancyfelin.

Addoli Digidol

Noswyl Nadolig 24 Rhagfyr 2021

Cynhaliwyd epillog byr dan arweiniad ein Gweinidog i'n paratoi ar gyfer dathlu Gŵyl y Geni. Denodd yr epillog nifer da o aelodau'r Ofalaeth a chyfeillion eraill. Cawsom, glywed tri charol – 'Sisialai'r awel fwyn', 'Ganol gafaef noethlwm' ac 'O dawel ddinas Bethlehem' i gloi'. Darllenwyd darnau o Eseia Pennod 9 ac Efengyl Ioan Pennod 1 cyn i ni gael ein harwain mewn gweddi i ddolch i Dduw am y Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith - yr ateb i'r dydd hwn ac i bob dydd.



Bore Nadolig 25 Rhagfyr 2021

Wrth ein cyfarch o'i haelwyd yn Abergwili ar y diwrnod mawr bwrddwn neges ein Gweinidog oedd ein hannog i ystyried y Nadolig o bersbectif Duw. Cafodd brofiad dros yr Ŵyl o weld fffim mewn 3 dimensiwn yn ein tref a'r cyfrwng arbennig hwn yn ei galluogi i'w fwynhau o safbwynt

mwy nag un persbetif. Mor wahanol yw'r sefyllfa yn ein byd ni heddiw gyda phobl yn gweld y Nadolig mewn un persbectif yn unig yn aml – ffordd materoliaeth. Ein dyletswydd a'n braint ni yw edrych ar yr Ŵyl o bersbectif Duw a gamodd o lwyfan hanes i lwyfan y byd a'n bywydau ni oll drwy'i fab Iesu. Mae'r digwyddiad rhyfeddol hwn yn destun cân a bery byth a'n braint yw canmol Duw yn Iesu a'l wasanaethu drwy gydol oes. Cafwyd darlenniad gan Sara a gweddi gan Elin a datganiad hyfryd o *Hwn yw fy Mhlentyn i* gan Dafydd Jones, cariad Elin, gyda Jack Campbell yn cyfeillio. Yn gefndir i'r gwasanaeth cawsom fwynhau goleuadau tref Caerfyrddin a hynny'n rhyw gadarnhau ein cyffro wrth i ni oleuo kannwyll goleuni ar y diwrnod arbennig hwn - arwydd o burdeb a glendid Iesu a goleuni sy'n drech na thywyllwch.



Oedfa S4C

Daeth yr oedfa o'r Priordy dan ofal ein Gweinidog a dechreuwyd drwy oleuo'r gannwyll yng nghanol Torch yr Adfent i ddathlu dyfodiad Iesu – Goleuni'r Byd. Darllenwyd adnodau o'r Ail Bennod yn Efengyl Luc gan Jac Thomas, un o fechgyn ifainc y Priordy, yn adrodd hanes geni Iesu,



cyn i ni gael ein harwain mewn gweddi. Yn ei myfyrdod, cyfeiriodd ein Gweinidog at y rhodd ryfeddol a gafwyd ar y dydd hwn ym mherson y baban Iesu. Mae Duw'n awyddus i ni ddod i'w adnabod a'i garu oherwydd drwy'n cyfeillgarwch arbennig â Iesu bydd llawenydd, tangnefedd a gobaith yn gallu llifo a dod i'n cyfeiriad. Rhodd werthfawr Duw i ni yw Iesu - mae'n anhraethol fwy nag unrhyw eiddo ac yn para hyd byth. Mae'n rhodd hefyd y mae angen i ni ei derbyn. Fe'i cyflwynir i ni gan Dduw o'i wirfodd ac o waelod calon. Gall ddiwallu'n holl anghenion a pha well diwrnod i'w derbyn a thrwy hynny adnewyddu'n perthynas â Duw nag ar Ddydd Nadolig? Diolch am oedfa a neges hynod berthnasol yn cyflwyno newyddion da i ni yng nghanol cyfnod o ofid mawr yn hanes ein byd

Gŵyl San Steffan 26 Rhagfyr 2021

Clywsom gan ein Gweinidog yn ei myfyrdod mor bwysig yw hi i bob un

ohonom fyw fel pobl y Nadolig bob dydd o'r flwyddyn ac nid ar un niwrnod yn unig, A pha well esiampl i'n hysbrydoli na Steffan y dathlwn ei fywyd ar y diwrnod hwn? Darllenwyd hanes ei labuddio (Actau 7) ac fel y cydsyniodd Saul â hyn, Mae Steffan yn ei araith yn ymateb i'r digwyddiad ofnadwy o greulon hwn yn ffordd Iesu – yn llawn gras a chariad a maddeuant. A does wybod i ba raddau y dylanwadodd y digwydd ac ymateb Steffa ar Saul a droes yn ddiweddarach yn Paul yr Apostol gan newid holl gwrs ac ystyr ei fywyd. Diolch hefyd am y cyfle a gawsom yn ystod y gwasanaeth i ddysgu mwy am Steffan a'r traddodiad o gyflwyno rhoddion i'r tlodion ar ddiwrnod ei Wyl.



DIOLCH YN FAWR

Casglwyd £255 at Ganolfan Galw-i-Mewn Capel y Bedyddwyr Saesneg ar Ddydd Sul 5 Rhagfyr 2021 i'w galluogio i baratoi pecynnau bwyd a danteithion ar Ddydd Nadolig i'r rhai sy'n llai ffodus na ni.



Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.



GAIR O DDIOLCH

Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd garedig a dderbyniwyd gennym er cof am y ddiweddar Mrs Margaret Jones, Heol San Pedr gynt. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn. Cofiwn yn ddiolchgar iawn am garedigrwydd a chyfeillgarwch Margaret a'i ffyddlondeb i'r achos dros flynyddoedd maith.

Dechrau Blwyddyn Newydd yn Dda!

Y TYST – 50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwyn Thomas



Elinor W Reynolds...

Hanes dwy o weisg Cymru

Y mae Caerfyrddin yn dref sy'n ystyried ei hun fel tref sy'n hoff o eiriau. Ar un adeg, roedd gweisg bychain rif y gwliith yn y dref hon ac



argraffu cyflym a rhad yn rhan o'r dechnoleg newydd, fodern. Dyna ni Caerfyrddin ar flaen y gad! Ond eleni y mae dwy wasg hynod nodedig yng Nghymru'n dathlu eu pen-blwyddi'n gan mlwydd oed, sy'n golygu bod y flwyddyn 1922 wedi bod yn un gynhyrfus yn hanes Cymru o ran menter, creu a llyfrau. Y ddwy wasg yw **Gwasg Prifysgol Cymru** a Gwasg Gregynog – eiconau ym myd cyhoeddi yng Nghymru.



Roedd y cyfnod hwn yn un cynhyrfus yn hanes Cymru, dyma'r adeg pan oedd nifer o wledydd yn Ewrop yn ymladd dros hunanreolaeth, ac mi oedd y Cymry yn yr un cyfnod yn trafod eu hunaniaeth ac yn cael sgyrsiau am fod yn genedl a beth yr oedd

hynny'n ei olygu. Sefydlwyd Prifysgol Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel rhan o'r deffroad cenedlaethol. Mi oedd hi'n bwysig felly fod yna sefydliadau cenedlaethol atodol yn dod i fodolaeth er mwyn atgyfnerthu bywyd diwylliannol a gwleidyddol Cymru. Cynhaliwyd Comisiwn Brenhinol yn 1918 a'r Arglwydd Haldane yn argymhell y dylid sefydlu Gwasg Prifysgol yn gorff i 'wasanaethu fel dolen gref rhwng y Brifysgol a phobl Cymru, gan hefyd roi cyfleoedd ac anogaeth yr oedd ei ddirfawr angen ar fyfyrwyr oddi mewn i'r Brifysgol ac oddi allan iddi.' Wel, dyna ni felly, cychwynnwyd ar gyfnod ble roedd gwasg yn rhan o'r ymdrech genedlaethol ehangach i bwysleisio gwerth addysg a chyfrannu at ysgolheictod Cymraeg a Chymreig mewn modd blaenllaw a chanolog, law yn llaw â meithrin yr ymdeimlad o Gymreictod.

I gychwyn, cydweithiodd y wasg yn agos gyda'i chwaer sefydliad sef y Bwrdd Astudiaethau Celtaidd a sefydlwyd tua'r un adeg. Drwy'r berthynas hon, rhoddwyd seiliau cadarn i ymchwil academiaidd yng

Nghymru ynghyd â sicrhau bod modd cyhoeddi cyfrolau a fyddai'n ffrwyth yr ymchwil academaidd honno.

Oherwydd natur arbenigol (neu *niche* efallai!) llyfrau am Gymru, sylweddolodd sefydlwyr y wasg y byddai angen nawdd er mwyn cynnal y rhaglen gyhoeddi ac felly cytunwyd y dylai Prifysgol Cymru gynnig cefnogaeth ariannol i'r wasg. Y mae



Gregynog

Prifysgol Cymru wedi bod yn cefnogi a chynnal y wasg yn ariannol ers bron i ganrif bellach

gan sicrhau cyfraniad diwylliannol amhrisiadwy i Gymru ac i fydd academia yn rhyngwladol. Cyhoeddir gweithiau ysgolheigaidd o'r radd flaenaf ganddynt.

Ymhlith cyhoeddiadau'r wasg mae Geiriadur Prifysgol Cymru a gyhoeddwyd yn wreiddiol fesul darn i greu sawl cyfrol swmpus. Bellach, wrth gwrs, mae Geiriadur Prifysgol Cymru ar gael ar ffurf ap ar eich cyfrifiadur neu ffôn. Ymhlith cyhoeddiadau Gwasg Prifysgol Cymru ers y cychwyn yn 1922 mae: *Gwaith Tudur Aled* (1926); *Pedeir Keinc y Mabinogi* (1930); *Canu Aneirin* (1938); *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (1952); *Trioedd Ynys Prydein* (1961); *Gweithiau Pantycelyn* (1964), *Cerddi Dafydd ap Gwilym* (2010).


Gwnaethpwyd *Llawysgrif Hendregadredd* (1933), *Llyfr Gwyn Rhydderch* (1973) ac yn bwysicach i ni yma yng Nghaerfyrddin, *Llyfr Du Caerfyrddin* (1982) ar gael i gynulleidfa eang, yn ogystal â chyfrolau ar ryddiaith, barddoniaeth a hanes Cymru.

Mae'r wasg hefyd yn cyfrannu at waith datblygu astudiaethau Cymreig mewn pob math o feysydd, o ddiwylliant i hanes, iaith ac etifeddiaeth unigryw Cymru. Mae hefyd yn cyhoeddi cyfrolau ar bob math o bynciau eraill: hanes ac astudiaethau canoloesol; astudiaethau ar lenyddiaeth a diwylliant Ffrainc, Sbaen, Portiwgal a'r Almaen; beirniadaeth lenyddol; gwleidyddiaeth; athroniaeth, y cyfryngau; ac astudiaethau diwylliannol.



Ers sefydlu'r wasg yn 1922 cyhoeddwyd dros 3,500 o deitlau, ac erbyn heddiw mae'r wasg yn cyhoeddi tua 70 teitl yn flynyddol.

Gwasg breifat oedd **gwasg Gregynog**, neu The Gregynog Press, a sefydlwyd gan y chwirydd enwog **Gwendoline a Margaret Davies**, merched y diwydiannwr llwyddiannus, David Davies, Llandinam. Bu'r ddwy'n gymaint cymwynaswyr â Chymru o ran eu haelioni yn rhannu eu casgliad celf helaeth â'r genedl. Yn 1922 fe brynodd y chwirydd



blasty trawiadol Gregynog y tu allan i'r Drenewydd.

Adeg Nadolig 1922 argraffwyd y deunydd cyntaf, sef 120 o gardiau Nadolig. Ond bwriad y wasg yn y pendraw oedd cyhoeddi gweithiau Cymraeg wedi'u cyfieithu, ailargraffu gweithiau Saesneg gan lenorion



Cymreig ac argraffu copïau cywrain o weithiau yn Gymraeg mewn niferoedd cyfyngedig. Caiff y llyfrau cain eu gosod a'u rhwymo â llaw, ac mae'r cyfrolau hardd hyn yn boblogaidd gan gasglwyr llyfrau cain ac yn gwerthu am brisiau uchel.

Bu sawl crefftwr ac artist talentog yn gweithio i'r wasg gan gynnwys Robert Maynard, Blair Hughes-Stanton a Loyd Haberly. Ac er bod cyfrolau Gregynog yn brydferth ac yn rhai a ystyrir yn werthfawr, nid oedd y busnes yn llwyddiant ariannol. Ond wedi dweud hynny, nid oedd yr arian yn poeni'r chwirydd Davies ac nid er mwyn gwneud elw y crëwyd y wasg ganddynt chwaith. Y mae ein dyled ni i'w ddwy chwaer oleuedig hyn yn fawr iawn.

Effeithiodd yr Ail Ryfel Byd ar y wasg yn fawr ac ar ôl marwolaeth Gwendoline, sef ysgogydd y fenter, yn 1951, daeth y wasg i ben am gyfnod.

Yn 1974 rhoddwyd plasty Gregynog yn rhodd i Brifysgol Cymru, erbyn hynny, doedd y wasg heb gynhyrchu unrhyw lyfrau ers sawl blwyddyn. Cydiodd y brifysgol yn y wasg yn 1965 a'i hailenwi'n Gwasg Gregynog yn hytrach na The Gregynog Press a chychwynwyd cyhoeddi unwaith

yn rhagor. Mae Gregynog yn parhau i fod yn wasg weithredol hyd heddiw gan gynhyrchu nifer cyfyngedig o gyfrolau cain.

Ymhlith cyhoeddiadau cain Gwasg Gregynog y mae gweithiau Ann Griffiths, Canu Heledd, gweithiau canoloesol eraill, cerddi R. S. Thomas, gwaith Emyr Humphries er mwyn dathlu ei ben-blwydd yn 90 a llawer mwy, gan gynnwys cyfrol o *linocuts* gan Kyffin Williams.

Mae llyfrau Gwasg Gregynog yn cael eu creu drwy ddefnyddio dulliau traddodiadol sy'n cyfuno elfennau technegol gyda phrydfferthwch gwrthrychau cain, mae rhestr gyhoeddi Gregynog yn cynnwys llenyddiaeth orau Cymru a'r cyfrolau hynny'n defnyddio gwaith celf hyfryd ar eu dalennau.

Yn 1999 comisiynwyd y wasg i greu'r ddogfen swyddogol ar gyfer agoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe argraffwyd 250 o gyfrolau fel cofrodd i nodi'r ffaith fod gan Gymru lywodraeth ei hun am y tro cyntaf ers dros 600 mlynedd. Mae'r cyfrolau hynny'n cynnwys papur tra arbennig wedi'i fowldio a'i rwymo â llaw gyda chlawr a orchuddiwyd gan frethyn ac a flociwyd ag aur.


Y mae bod yn berchen ar gyfrol o eiddo Gwasg Gregynog yn beth tra arbennig, oherwydd y mae'r wasg yn codi llyfr fel gwrthrych i lefel darn o gelfyddyd.

Yr ydym ni fel Cymry'n lwcus iawn bod gennym ddwy wasg mor ardderchog sy'n arddel y gwerthoedd gorau o ran cyhoeddi ac sy'n dangos i ni pa mor bwysig yw llyfrau o bob math, oherwydd yn ddi-os, y maent yn cyfoethogi'n bywydau ni.

ATEBION HER YR EMYNAU

Mae'r rhifau yn cyfeirio at Ganeuon Ffydd

1. I³th (107); 2. Iachawdwriaeth (182); 3. Iôr (1860); 4. Iesu (349);
5. I'r (511); 6. I³ti'n (698); 7. I³mi (832);
8. I³ti (854);
9. I³n (857); 10. I³w (869)




WILLIAM MORGAN: GOD'S WORD FOR WALES

Nathan Munday

Tachwedd 2021

Gwasg Bryntirion - £7

Disgrifir yr Esgob William Morgan fel y gŵr a'i gwnaeth yn bosibl i'r Arglwydd Iesu Grist siarad Cymraeg, fel bod pobl Cymru yn medru gwrando ar ei eiriau yn eu hiaith eu hunain. Mae'r gyfrol hon yn olrhain yr hanes ynghylch sicrhau bod y Beibl ar gael yn yr iaith Gymraeg yn 1588



THOMAS CHARLES: GOD'S GIFT TO WALES

Jonathan Thomas

Tachwedd 2021

Gwasg Bryntirion - £7

Pan glywodd Daniel Rowland y pregethwr Thomas Charles am y tro cyntaf ymatebodd fel hyn; 'Charles yw rhodd Duw i Ogledd Cymru.' Erbyn ei farwolaeth yn 59 mlwydd oed Thomas Charles o'r Bala oedd yr arweinydd Cristnogol enwocaf ac anwylaf drwy'r wlad. Mae'r gyfrol hon yn ceisio dangos pam y caiff ei garu a'i barchu gan gynifer.


Nansi Hayes...

CYFARCHION BLWYDDYN NEWYDD

DYMA ni 'to 'te, yn cyfarch Blwyddyn Newydd arall, ac yn dymuno un iach hefyd, o gofio bod yna feirws arall yn ein goddiweddyd ar hyn o bryd. Awn ni ddim ar ôl hwnnw nawr, buom yn sôn digon am

Covid-19 mewn ôl-rifyn o'r

Papur yma, a dysgu'r ffordd orau i edrych ar ôl ein hunain, a rhaid gwneud yr un beth y tro hwn hefyd.



Mae un o hen benillion Mam-gu yn dod i'r cof yn y fan hyn;




*Diar my heart a Chalon drom
Beth sydd imi'r flwyddyn hon?
Nid ar y flwyddyn fach mae'r bai,
Ond ar y bobol 'gylch y tai!*

OND, yn wahanol i'r pennill bach, rydym yn tueddu i feio'r flwyddyn hon neu'r llall! "Wel dyna flwyddyn ofnadwy oedd ...". ac ati, p'un ai oherwydd sefyllfaoedd neu amgylchiadau llon neu leddf, ac o feddwl, arnom ni fel pobl mae'r bai am ledaenu'r gwahanol feirws sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Rydym wedi cyffwrdd â rhai o'r hen draddodiadau ynglŷn â'r Calan, a hyd yn oed yr Hen Galan o'r blaen ac er bod rhai wedi mynd i ebargofiant, mae un wedi goroesi, sef **Y Plygain**. Iddyfynnu'r **Parchedig Ganon Ddr Patrick Thomas**, "Aeth pedair

canrif heibio oddiar

pan oedd Rhys Prichard yn cadw'r Plygain yn Eglwysi Llanymddyfri a Llanfair-ar-y-bryn, ac mae'n hyfryd meddwl nad yw'r mawl wedi darfod, a bod yr Ŵyl yn parhau i gael ei chadw yng Nghaerfyrddin."



Dyna ni wedi sôn amdanom ni'r Cymry, ond beth am wledydd eraill, a'u traddodiadau hwy? Darllenais mewn cylchgrawn Saesneg y dydd o'r blaen am rai traddodiadau rhyfedd iawn! Dyma i chi flas o rai ohonynt:



Pobl **Columbia**, De America, yn cario bag dillad gwyliau gwag mewn gobaith o flwyddyn o anturiaethau! Yn **Denmarc** wedyn, maen nhw'n torri platiau a gwydrau



yn deillchion ar stepen drws eu cymdogion, i yrru ysbrydion drwg i fwrdd! Yng




ngwlad **Groeg**, hongian winwns (nionod) wrth ymyl y drws ffrynt fel arwydd o ailededigaeth yw eu traddodiad!

Mae'r **Sbaenwyr**, mae'n debyg, yn bwyta dwsin o rawnwin fel mae'r cloc yn taro hanner nos, gan obeithio am lwc dda am bob mis o'r flwyddyn i ddod. Yn **Brasil**, bwyta eu hoff bryd o fwyd fydd



trigolion y wlad, sef ffacbys neu lentils.



I ddod yn nes adre, mae llawer o draddodiadau yn perthyn i'r **Alban**, ac mae un ohonynt wedi ei fabwysiadu erbyn hyn dros y byd, sef canu'r '**Auld Lang Syne**'.



A BETH am i ninnau hefyd y flwyddyn newydd hon, fel yn y gân, gofio am ein cydnabod, ac yn fwy na hynny, am bobl lai ffodus na ni ar hyd a lled y byd ar hyn o bryd.





NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

AGOR Y LLYFR

Bu criw Agor y Llyfr Caernarfon yn brysur eleni eto yn creu fideos o straeon Beiblaidd i'w hanfon i ysgolion y dref. Cafwyd mynd 'ar leoliad' i Fferm i recordio Stori'r Nadolig yn eu sied wair er mwyn ceisio dod â stori'r geni yn fyw i blant yr ysgolion. Mae'r ysgolion wedi gwerthfawrogi 'n fawr, Dyma rai o sylwadau gan ddisgyblion Blwyddyn 4 Ysgol y Gelli:



Diolch ichi am ddod â'r stori'n fyw inni gael dysgu am Iesu.

Diolch am y gân Dawel Nos

Diolch am roi eich amser i wneud y fideo

Diolch am y weddi.

Rydym wedi mwynhau bore ma.

DRAMA NADOLIG Y PLANT TU ALLAN ELENI O FLAEN Y CAPEL

ac ar y diwedd pwy
alwodd heibio ond Siôn
Corn ei hun!



CYNGOR EGLWYSI CAERNARFON CANU CAROLAU

Dydd Iau, 23 Ragfyr am 12:30 ar y maes o flaen Capel y Maes

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion yn Salem ac edrychwn ymlaen at dderbyn rhagor o newyddion yn ystod 2022!

Tudalen Blaen

Rheswm Mari Jenkins dros ddewis Salm 33....



MAE sawl cyfeiriad yn y Beibl at gerddoriaeth. Hon yw fy hoff Salm i. Mae cerddoriaeth yn chwarae rhan flaenllaw ym ein bywyd ni fel teulu gyda fy nghyfnither a fy chwaer, Siân, yn gerddorion ac yn canu nifer o offerynnau'n



broffesiynol ac yn arwain cerddorfeydd. Dewisais y Salm arbennig hon er cof am fy nhad. Nid oedd yn gerddor broffesiynol ond roedd yn hoff o ganu yng nghôr Meinir Lloyd, Bois y Dderwen. Pan fyddai'n mynd ar deithiau tramor buasai wrth ei fodd yn arwain y canu. Roedd yn chwarae'r ffidil, rhywbeth a oedd yn agos iawn at ei galon. Pan ymddeolodd aeth

ati i wneud gwaith celfydd yn cynllunio a chreu fiolinau a thra bu wrthi roedd yn ddigon clyfar i weithio offer saer coed bychain er mwyn cynhyrchu fiola a fiolin Aeth ymlaen i greu sawl un wedyn. Rwy'n dod o deulu sy'n ddwfn yn y ffydd Gristnogol oherwydd roedd mam yn ferch y Mans a thad-cu yn Weinidog gyda'r Annibynwyr. Mae canu emynau ac adrodd salmau yn rhan fawr o'n bywyd ni fel teulu. Diolch fy mod innau'n gallu molli'r Arglwydd drwy fynychu addoldy sydd wedi'i amgylchynu gyda cherddoriaeth o bob math.



ON: Mae atgofion hyfryd iawn gan lawer ohonom am y diweddar John Jenkins, tad Mari – cymeriad hoffus ac amryddawn dros ben.

A dyma ddyfynnu hoff salm Mari yn gyflawn fel y gallwn ninnau hefyd ei mwynhau::

Llawenhewch yn yr Arglwydd, chwi rai cyfiawn; i'r rhai uniawn gweddus yw moliant.

Molwch yr Arglwydd â'r delyn, canwch salmau iddo â'r offeryn dectant; canwch iddo gân newydd, trawch y tannau'n dda, rhowch floedd.

Oherwydd gwir yw gair yr Arglwydd, ac y mae ffyddlondeb yn ei holl weithredoedd.

Y mae'n caru cyfiawnder a barn; y mae'r ddaear yn llawn o ffyddlondeb yr Arglwydd.

Trwy air yr Arglwydd y gwnaed y nefoedd, a'i holl lu trwy anadl ei enau. Casglodd y môr fel dŵr mewn potel, a rhoi'r dyfnderoedd mewn ystordai. Bydded i'r holl ddaear ofni'r Arglwydd, ac i holl drigolion y byd arswydo rhagddo.

Oherwydd llefarodd ef, ac felly y bu ; gorchmynnodd ef, a dyna a safodd. Gwna'r Arglwydd gyngor y cenhedloedd yn ddim, a difetha gynlluniau pobloedd.

Ond saif cyngor yr Arglwydd am byth, a'i gynlluniau dros yr holl genedlaethau.

Gwyn ei byd y genedl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddi, y bobl a ddewisodd yn eiddo iddo'i hun.

Y mae'r Arglwydd yn edrych i lawr o'r nefoedd, ac yn gweld pawb oll; o'r lle y triga y mae'n gwyllo holl drigolion y ddaear.

Ef sy'n llunio meddwl pob un ohonynt, y mae'n deall popeth a wnânt. Nid gan fyddin gref y gwaredir brenin ,ac nid â nerth mawr yr achubir rhyfelwr.

Ofer ymddiried mewn march am waredigaeth; er ei holl gryfder ni all roi ymward.

Y mae llygaid yr Areglwydd ar y rhai a'i hofna, ar y rhai sy'n disgwyl wrth ei ffyddlondeb, i'w gwaredu rhag marwolaetha'u cadw'n fyw yng nghanol newyn.

Yr ydym yn disgwyl am yr Arglwydd ; ef yw ein cymorth a'n tarian.

Y mae ein calon yn llawenychu ynddo am inni ymddiried yn ei enw sanctaidd.

O Arglwydd dangos dy ffyddlondeb tuag atom, fel yr ydym wedi gobeithio ynot





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Ionawr		Chwefror	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun Charles	Adrian Evans	Gwynfor Davies	Philip Jones



DARLLENWYR



Ionawr	2	Teulu Jones	Chwefror	6	Elen Marks
	9	Y Plant		13	PIP
	16	Catrin Heledd Jones		20	Huw Michael
	23	Elinor W Reynolds		27	Y Plant
	30	Huw Jones			



CYHOEDDWYR



Ionawr	Huw Michael	Chwefror	Alison Parsons
--------	-------------	----------	----------------

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt
PHILIP JONES
 Trysorydd
 ☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Mari Jenkins am y lluniau'r mis hwn.

CADWCH YN DDIOGEL





DYMNUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylydus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddylw'n yn arbennig am Dewi Snelson a'r Athri Emeritws Desmond Hayes ar hyn o bryd. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Clywyd Elinor Wyn Reynolds yn siarad am hunangofiannau ar **Dros Ginio gyda Dewi Llwyd ar Radio Cymru**. Bu Beti-Wyn **Pnawn Da** ar **S4C** yn trafod arferion yr Adfent a hefyd Galendr Adfent digidol ein Gofalaeth ynghyd â darpariaeth ar lein yn gyffredinol gyda Gwenfair Griffith ar **Bwrw Golwg ar Radio Cymru**. Hyfryd oedd clywed darnau o'r Calendr yn cael eu dyfynnu. Bu Catrin Haf Williams yn adolygu'r papurau ar raglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul ar Radio Cymru**.



Ar **Heno** ar **S4C** bu Eleri James yn sôn am y daith tynnu tractor a drefnwyd i godi arian er cof am Beca Mai. Bu Rebecca Hayes ar **Dros Ginio ar Radio Cymru** yn trafod y berthynas rhwng y stori a'r lluniau gyda Rhys Williams, un o ddynion camera mwyaf profiadol BBC Cymru sydd wedi teithio'n helaeth gyda'i waith fel dyn camera rhyfel.

Ac ar Noswyl Nadolig ar **Heno** gwelwyd Beti-Wyn, yn rhan o eitem ar bobl sy'n gweithio Diwrnod Dolig, yn esbonio fel mae'n arwain a darlledu gwasanaethau Nadolig ac yn cadw mewn cyswllt â phobl sy'n treulio'r Ŵyl ar eu pen eu hunain.

Cafodd Huw Michael ei holi ar y **Post Prynhawn** gan Dylan Jones ynghylch prisiau nwy arbennig o uchel ar y farchnad cyfanwerthol - chwe gwaith yr hyn roedden nhw ar ddechrau'r flwyddyn, a'r effaith y bydd hyn yn debyg o gael ar brisiau y bydd cwsmeriaid domestig yn eu talu o fis Ebrill 2022 ymlaen, yn ogystal â'r effaith ar gwmnïau cyflenwi nwy a thrydan sydd ar hyn o bryd yn gwneud hynny ar gollod o ganlyniad i uchafbrys OFGEM. Gallwn ddisgwyl pwysau ar y Llywodraeth yn San Steffan i ysgafnhau rhywfaint o'r baich trwy ddiddymu TAW am y tro a diddymu trethi amgylcheddol am y tro. Mae nifer o wledydd Ewrop wedi gwneud hyn yn barod

Bu Elin Llwyd yn cyflwyno'r rhaglen **Carol yr Ŵyl** ar **S4C** a darlledwyd drama Ian Rowlands, sef **Ar Fryn Briallu** ar **Radio Cymru**.

Roedd naws ryngwladol o'r oedfa ddigidol a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr! Cymerwyd rhan gan Hefina Phillips – Canada, Mari Morgan - UDA, Jane Fallon - Iwerddon a Siôn Gough Hughes – Awstraliaa John Owen Jones - Ynys Bute, Yr Alban.

Ymddangosodd erthygl yn **Ninnau – Papur Cymry Gogledd America (Rhifyn Ionawr-Chwefror 2022)** yn tynnu sylw at ddarpariaethau digidol Capel y Priordy. Ac mewn rhan arall o'r Papur mae Philip Davies, Llywydd Sefydliad Cymru Gogledd America ac un â'i wreiddiau teuluol yng Nghaerfyrddin, yn talu teyrnged i'n Gweinidog am ei harweiniad a'i gweinidogaeth.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Emlyn Schiavone ar gael ei ethol yn gadeirydd newydd Llyfrau Llafar Cymru. Pob dymuniad da iddo. Mae'n dilyn Sulwyn Thomas a fu yn y gadair ers 2010 gan gyflawni gwaith rhagorol dros yr elusen.

AR Golwg 360 gwelwyd Beti-Wyn fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn rhannu'i neges ar drothwy'r Nadolig, gan obeithio bod gwell i ddod yn 2022.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Sulwyn a Glenys Thomas ar golli modryb Sulwyn, sef Mair Heywood Thomas, priod yr Athro Heywood Thomas, Tresimwn, Bro Morgannwg, ar 11 Rhagfyr 2021. Meddyliwn am Nicola, y ferch, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar

Clywsom am golli dau aelod ar drothwy'r Nadolig. Bu farw David Baston, Hafod Cwnin, ar 13 Rhagfyr 2021 a chydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu colled. Yna collwyd Mair Davies, Banc y Ffwrnes ar 23 Rhagfyr 2021 ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Emyr, ei mab, a'r teulu cyfan.
Bydd teyrnged i'r ddau yn ein rhifyn nesaf.



Y SULLIADUR



Ionawr	2	Bore	Oedfa Gymun yr Ofalaeth gyda Theulu Llinos Jones a'n Gweinidog	C
	9	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	
	16	Bore	Oedfa gyda'r Parchedig Gethin Rhys	
	23	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	
	30	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	

Chwefror	6	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog.	C
	13	Bore	Ein Gweinidog <i>Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg</i>	
	20	Bore	Alun Lenny	
<i>Gŵyl Dewi</i>	27	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu * - I'w Gadarnhau								
Ionawr					Chwefror			
2	9	16	23	30	6	13	20	27
OD	CP	✓	✓	✓	*	*	*	OD



DALIER SYLW

Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur
mewn da bryd.

